# Pensiynau

13 Ebrill 2015

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 23 Mawrth, pan ofynnoch:

> *Baswn yn ddiolchgar petaech yn gallu fy hysbysu o'r gwybodaeth canlynol:*
>
> 1. *Holl ddaliadau* Cronfa Pensiwn Aelodau'r Cynulliad*
> 2. *Holl ddaliadau Cronfa Pensiwn aelodau staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru*
>
> ** Hynny yw, cyfanswm yr holl fuddsoddiadau yn y cwmniau gwahanol, gilts gwahanol, bonds gwahanol ac yn y blaen a ddelir gan y cronfeydd pensiwn a nodir.*

*1. Holl daliadau* Cronfa Pensiwn Aelodau'r Cynulliad*

Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i chyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn yr Aelodau.

Mae adroddiadau blynyddol a chyfrifon blaenorol ar gael hefyd.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

*2. Holl daliadau Cronfa Pensiwn aelodau staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Ni ddelir y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Mae staff Comisiwn y Cynulliad yn gymwys i ymaelodi â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Nid yw'r cynllun hwnnw'n cael ei gyllido, a thelir amdano


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA


Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@cynulliad.cymru


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

drwy drethi ac nid drwy gronfa fuddsoddi sylfaenol, er bod y cyflogai a'r cyflogwr yn talu cyfraniadau iddo.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y manylion cyswllt a gyhoeddwyd ar wefan Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil - http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/press/

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF